

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

23 Mawrth 2023

Annwyl Mark

Fframwaith Windsor y DU a'r UE

Yn dilyn cyflwyniad Fframwaith Windsor ("y Fframwaith") ar 27 Chwefror 2023 – sef y cytundeb mewn egwyddor a wnaed rhwng Llywodraeth y DU a'r UE ar newidiadau i Brotocol Gogledd Iwerddon – rwy'n ysgrifennu i geisio barn Llywodraeth Cymru ac asesiad manwl o oblygiadau'r Fframwaith i Gymru. Fel rhan o'r asesiad hwn, gofynnaf i chi hefyd ddarparu gwybodaeth benodol am y materion a ganlyn:

- y modd y cafodd Llywodraeth Cymru ei chynnwys yn y trafodaethau;
- mewnbwn Llywodraeth Cymru i gynnwys y Fframwaith;
- y fforwm rhynglywodraethol, os o gwbl, a ddefnyddiwyd i drafod y negodiadau;
- cyfraniad Llywodraeth Cymru at gyfarfod y Cyd-bwyllgor a'r Cyngor Partneriaeth ym mis Mawrth;
- a yw Llywodraeth y DU wedi ailystyried eich ceisiadau i fynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor lle trafodir materion sy'n ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon sy'n effeithio ar Gymru;
- a yw rhag-gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, a sefydlwyd o dan y Prif Weinidog Theresa May, yn parhau i ddigwydd (fel y'u disgrifiwyd mewn gohebiaeth gan yr Arglwydd Frost ym mis Mai 2021);



- a fydd cyfranogiad y llywodraethau datganoledig mewn cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE, fel y nodwyd gan yr Arglwydd Frost ym mis Mai 2021, yn parhau neu a oes unrhyw gynlluniau gan Lywodraeth y DU i ailedrych ar hyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 17 Ebrill 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

